RHYS WYN ap CADWALADR (fl. c. 1600), o'r Giler, Ysbyty Ifan, sir Ddinbych, bardd

Enw: Rhys Wyn ap Cadwaladr
Rhiant: Cadwaladr Wynne
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: bardd
Maes gweithgaredd: Barddoniaeth
Awdur: Elwyn Evans

ail fab Cadwaladr ap Morris Cethin o'r Foelas. Ceir rhai englynion a chywyddau o'i waith mewn llawysgrifau, yn eu plith farwnad i'w fab yn Llanst MS. 54 (259) a chywydd ymryson â Thomas Prys yn Jes. Coll. MS. 12 (319) a Mostyn MS. 144 (84). Yn yr un llawysgrifau ceir dau gywydd ateb iddo yntau gan Thomas Prys a chywydd dychan iddo gan Huw Machno. Yn Llanstephan MS 49 (61) a B.M. Add. MS. 14966 (576) ceir cywydd cymod rhyngddo ef a Siôn Phylip o waith Edmwnd Prys. Ceir y rhelyw o'i waith yn y llawysgrifau canlynol: NLW MS. 253 (284), 644 (89), 836 (38), 1553 (416, 435, 450, 525), 1578 (402), 5545 (187); Mostyn MS. 148 (711); Cwrtmawr MS. 22 (228); Cardiff MSS. 19 (459), 23 (240, 410), 84 (1083); B.M. Add. MSS. 14, 874 (178), 14, 894 (105). Yn ôl J. E. Griffith, *Pedigrees*, 189, lle y ceir ei achau, bu farw 23 Chwefror 1607 yng Nghaer a chafodd ei gladdu yno yn eglwys y Santes Fair.

Awdur

Elwyn Evans

Ffynonellau

William Owen Pughe, *The Cambrian Biography* (1803), 307

Cymru yn hanesyddol, parthedegol, a bywgraphyddol (1875)

Robert Williams, *Enwogion Cymru. A Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* (1852)

Heraldic Visitations of Wales and Part of the Marches between the years 1586 and 1613, under the authority of Clarencieux and Norroy, two kings at arms (Llandovery 1846), ii, 343

John Wyn Roberts, 'Edmwnd Prys, Hanes ei Fywyd a Chasgliad o'i Weithiau' (traethawd M.A. Prifysgol Cymru, 1938)

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20734258

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu